Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – "Cefnogi a Hybu'r Gymraeg"

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am yr adroddiad sy'n edrych ar y trefniadau i Gefnogi a Hybu'r Gymraeg. Rwy'n falch bod y Pwyllgor wedi cymryd yr amser i graffu ar y trefniadau presennol ar gyfer cefnogi a hybu'r Gymraeg, ac wedi cyflwyno argymhellion adeiladol ynglŷn â sut y dylid gweithredu yn y dyfodol. Mae fy ymateb i'r argymhellion unigol wedi'u nodi isod.

Argymhelliad 1

Rydym yn argymell bod y Pwyllgor hwn, neu Bwyllgor cyfatebol yn y Chweched Cynulliad, yn ymrwymo i gynnal adolygiad llawn o'r safonau a'r dyletswyddau a osodir ar sefydliadau. Dylai'r adolygiad hwn hefyd gynnwys sut y mae'r defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mater i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu presennol, neu'r Pwyllgor cyfatebol yn y Cynulliad nesaf yw hwn. Rwyf wedi croesawu gweld yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal, ac mewn egwyddor fe fyddwn yn falch gweld adolygiad tebyg yn y dyfodol. Fe fyddwn yn croesawu adolygiad sy'n edrych ar effaith y safonau ar y defnydd o wasanaethau Cymraeg ac ar ddefnydd o'r iaith yn fewnol mewn sefydliadau.

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol i Weinidogion Cymru.

Argymhelliad 2

Dylai adolygiad yn y dyfodol hefyd gynnwys dadansoddiad o ddatblygiadau ac addasiadau a wneir o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, ynghyd ag effaith y newidiadau hynny.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Fel uchod, mater i'r Pwyllgor presennol neu'r Pwyllgor yn y Cynulliad nesaf yw hwn. Mewn egwyddor byddwn yn croesawu bod unrhyw adolygiad sy'n cael ei gynnal yn edrych ar pan mor effeithiol mae deddfwriaeth yn cael ei weithredu ac effaith unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r adolygiad hwn.

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol i Weinidogion Cymru.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gynigion yn y dyfodol i ddiwygio neu ddisodli Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn cael eu hategu gan y dystiolaeth ehangaf bosibl. Dylai hyn gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr, gan y byddai'n cael effaith sylfaenol ar hawliau siaradwyr Cymraeg. Dylai'r dystiolaeth ddangos sut y bydd newidiadau o'r fath yn gwella hawliau siaradwyr Cymraeg.

Ymateb: Derbyn

Nid oes gennyf unrhyw fwriad ar hyn o bryd i ddiwygio neu ddisodli Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Wrth reswm, byddai'r Llywodraeth yn ymgynghori'n llawn cyn gwneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Bapur Gwyn yn 2017 pan fu'r Llywodraeth yn ystyried cyflwyno Bil newydd ar y Gymraeg. Mae gwersi pwysig wedi'u dysgu o'r ymarfer hwnnw a'r trafodaethau ehangach a gynhaliwyd ers hynny, gan gynnwys yr adolygiad hwn. Mae'r trafodaethau ar y Papur Gwyn wedi dylanwadu ar y ffordd mae'r Llywodraeth yn datblygu'r safonau nesaf ac yn mynd ati i hybu'r Gymraeg ar hyn o bryd.

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol i Weinidogion Cymru y gellid eu rhagweld gan nad oes bwriad ar hyn o bryd i ddiwygio neu ddisodli Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Argymhelliad 4

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i opsiynau i addasu safonau'r Gymraeg, o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Gellid gwneud hyn drwy adolygu neu gyfuno safonau lluosog sydd â'r un nod neu ganlyniad. Ni ddylai unrhyw newidiadau a wneir effeithio'n andwyol ar ddarparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.

Ymateb: Derbyn

Rwyf wedi nodi'r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Bil y Gymraeg ac ar y dystiolaeth a dderbyniodd y Pwyllgor yn ystod yr adolygiad hwn. Wrth baratoi safonau ar gyfer y dyfodol byddwn yn ystyried sut y gellid eu symleiddio, a'u paratoi mewn modd sy'n lleihau'r fiwrocratiaeth ar gyrff, wrth sicrhau eu bod yn dal i roi hawliau clir i ddefnyddwyr.

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol ychwanegol i Weinidogion Cymru, mae hwn yn waith fydd yn cael ei wneud o fewn y costau staffio presennol.

Argymhelliad 5

Dim ond ar gyfer sectorau nad ydynt yn gweithredu safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd o dan Fesur 2011, megis cymdeithasau tai, cyfleustodau a chyrff trafnidiaeth, y dylid gwneud unrhyw newidiadau i'r safonau.

Ymateb: Derbyn

Wrth baratoi safonau ar gyfer y dyfodol byddwn yn ystyried sut y gellid eu symleiddio, a'u paratoi mewn modd sy'n lleihau'r fiwrocratiaeth ar gyrff, wrth sicrhau eu bod yn dal i roi hawliau clir i ddefnyddwyr. Mae chwe set o Reoliadau Safonau'r Gymraeg eisoes wedi'u paratoi sydd wedi arwain at dros 120 o gyrff yn gweithredu safonau ar hyn o bryd. Nid oes bwriad gennyf i ail-ymweld â'r rheoliadau hynny ar hyn o bryd felly rwy'n cytuno mai dim ond yng nghyd-destun Rheoliadau a wnaed o hyn ymlaen y dylid gwneud newidiadau.

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol ychwanegol i Weinidogion Cymru, mae hwn yn waith fydd yn cael ei wneud o fewn y costau staffio presennol.

Argymhelliad 6

Rydym hefyd yn argymell, lle bo hynny'n bosibl o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, bod Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn ymchwilio i opsiynau i gyflymu'r broses o gyflwyno a gweithredu safonau mewn sectorau nad ydynt eisoes yn gweithredu safonau'r Gymraeg. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen ar gyfer y gwaith hwn.

Ymateb: Derbyn

Rwyf yn anelu i baratoi deddfwriaeth bwrpasol yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon ag sy'n bosib. Rydym yn trafod gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn barhaus ac wedi dysgu rhai gwersi ar gyfer y dyfodol ar ôl ystyried sut mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg blaenorol wedi'u paratoi. Fe fyddaf yn ymateb i'r gwersi hynny wrth baratoi Rheoliadau Safonau yn y dyfodol. Mae hi, fodd bynnag, yn anodd bod yn glir ynghylch amserlenni deddfwriaethol yn sgil Brexit.

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol ychwanegol i Weinidogion Cymru, mae hwn yn waith fydd yn cael ei wneud o fewn y costau staffio presennol.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru, cyn gynted â phosibl, ond dim ond ar ôl ystyried yr angen i adolygu'r safonau, gyflwyno'r set nesaf o reoliadau i reoleiddwyr yn y maes iechyd a chwmnïau dŵr.

Ymateb: Derbyn

Mae rheoliadau i wneud safonau'n gymwys i rheoleiddwyr iechyd a chwmnïau dŵr yn cael eu datblygu. Wrth baratoi safonau byddwn yn ystyried sut y gellid paratoi Rheoliadau sy'n addas i'r sectorau tra'n eu symleiddio, a'u paratoi mewn modd sy'n lleihau'r fiwrocratiaeth ar gyrff.

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol ychwanegol i Weinidogion Cymru, mae hwn yn waith fydd yn cael ei wneud o fewn y costau staffio presennol.

Argymhelliad 8

Rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru ymchwilio i opsiynau, lle y ceir hyblygrwydd o fewn y fframwaith deddfwriaethol, i gyflymu'r broses gwynion. Dylai hyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus, a sicrhau bod cwyn defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei datrys yn gyflym lle bynnag y bo modd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mater i Gomisiynydd y Gymraeg yw pennu proses ynglŷn â delio gyda chwynion. Mewn egwyddor, rwy'n cytuno y dylid delio â chwynion yn y modd mwyaf effeithiol posib, gan weithredu'r Mesur wrth wneud y defnydd gorau o adnoddau cyhoeddus. Ysgrifennais at y Comisiynydd blaenorol ym mis Tachwedd 2018 ynglŷn â'r broses o ddatrys cwynion gan gyflwyno rhai sylwadau ynglŷn â sut y gellid ymchwilio i gwynion mewn ffordd wahanol, a hynny heb effeithio ar hawliau'r achwynydd na phwerau'r Comisiynydd. Rwy'n falch o nodi bod y Comisiynydd wedi cymryd camau i gyflwyno newidiadau i'r drefn ymchwilio i gwynion. Rwy'n derbyn diweddariadau cyson wrth y Comisiynydd ynglŷn ag effaith y newidiadau hynny.

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol i Weinidogion Cymru

Argymhelliad 9

Dylai Comisiynydd y Gymraeg adolygu ei weithdrefnau cwyno yn gyson o ran eu heffeithiolrwydd a'u heffaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mater i Gomisiynydd y Gymraeg yw hwn, ond rwyf yn cefnogi'r argymhelliad mewn egwyddor. Fel y nodais uchod mewn ymateb i argymhelliad 8, rwy'n falch i adrodd bod y Comisiynydd wrthi yn gweithredu newidiadau i'r drefn ymchwilio i gwynion.

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol i Weinidogion Cymru

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru wahaniaethu'n glir rhwng ei rolau a'i chyfrifoldeb hi a rolau a chyfrifoldeb Comisiynydd y Gymraeg, a dylid cyfathrebu hynny'n glir i randdeiliaid a'r cyhoedd.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Comisiynydd a minnau wedi cytuno Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth newydd rhwng y Llywodraeth a'r Comisiynydd. Rhwng Mesur y Gymraeg a'r Memorandwm, rwy'n hyderus y bydd swyddogaethau'r Comisiynydd a'r Llywodraeth yng nghyd-destun gweithredu polisi'r Gymraeg yn glir. Byddaf yn trefnu bod y Memorandwm yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol i Weinidogion Cymru

Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru geisio gwella statws a rôl Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'i chyfrifoldebau presennol, byddai'r Uned yn gyfrifol am ddwyn ynghyd arbenigedd allanol a fyddai'n rhoi trosolwg strategol o gynllunio ieithyddol yn genedlaethol. Dylai fod gan yr Uned hefyd rôl draws-lywodraethol ehangach, gan sicrhau bod trefniadau mewnol ar gyfer gweithredu'r strategaeth Cymraeg 2050 yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ar draws adrannau'r llywodraeth

Ymateb: Derbyn

Ers y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â chyflwyno Bil y Gymraeg, mae'r Llywodraeth wedi bod yn ystyried sut i roi ffocws cryfach ar gynllunio ieithyddol o fewn y Llywodraeth a thu hwnt. Er mwyn sicrhau mwy o ffocws a thrylwyredd wrth gynllunio'n ieithyddol, hybu'r Gymraeg a newid arferion, o fewn Llywodraeth Cymru ac yn allanol, rwyf wedi darparu cyllid i sefydlu *Prosiect 2050*, uned amlddisgyblaethol newydd o fewn Llywodraeth Cymru a fydd yn gyfrifol am weithredu *Cymraeg 2050.*

Caiff y cyllid o bron i £30,000 o Ionawr-Mawrth 2019, a £115,000 i ddilyn yn 2020-21, ei ddefnyddio i wella'r arbenigedd cynllunio ieithyddol o fewn Llywodraeth Cymru drwy gyllido swydd newydd o fewn y gwasanaeth sifil i arwain *Prosiect 2050*, ac i gomisiynu panel o hyd at bedwar cynghorydd arbenigol allanol ar gynllunio ieithyddol a disgyblaethau cysylltiedig megis newid arferion.

Rhoddir y tasgau canlynol i *Prosiect 2050*:

- cydlynu'r gwaith o gynllunio ein llwybr tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr, o'r blynyddoedd cynnar, drwy ddarpariaeth addysg statudol cyfrwng Cymraeg, i addysg ôl-orfodol i Gymraeg i Oedolion;
- creu mentrau newydd, a gwerthuso mentrau cyfredol, gyda'r nod penodol o gyrraedd ein targed o ddyblu'r defnydd o'r Gymraeg;
- cefnogi meysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru i gyfrannu at y gwaith o gynnal ein cymunedau Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn unol â *Cymraeg 2050.*

Rwy'n ffyddiog y bydd sefydlu *Prosiect 2050* yn gam pwysig ymlaen wrth weithredu *Cymraeg 2050.*

Goblygiadau Cyllidol: Mae sefydlu *Prosiect 2050* yn fforddiadwy o fewn y gyllideb bresennol ar gyfer y Gymraeg.

Argymhelliad 12

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer gweithgareddau hybu a wneir gan y Llywodraeth, y Comisiynydd neu asiantaethau allanol os yw am lwyddo yn ei nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae cyllideb y Gymraeg yn cael ei adolygu'n flynyddol yn ystod y drefn pennu cyllideb y Llywodraeth. Trwy'r cynlluniau ariannu rwyf yn annog cyrff i wario'r gyllideb sydd wedi'u glustnodi iddynt yn y ffordd fwyaf effeithiol phosib.

Goblygiadau Cyllidol: Mae cyllideb y Gymraeg yn cael ei bennu'n flynyddol. Mae gwaith hybu'r Gymraeg eisoes yn digwydd fel rhan o'r gyllideb bresennol.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda'r rhai sy'n gwneud gwaith ymchwil yn y byd academaidd i nodi bylchau mewn gwybodaeth, a datblygu rhaglenni ymchwil i gefnogi'r Strategaeth Cymraeg 2050.

Ymateb: Derbyn

Rydym eisoes yn cynllunio gwaith ymchwil yn ofalus drwy Gynllun Tystiolaeth blynyddol, gan rannu gwybodaeth a chydweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac ymchwilwyr yn y byd academaidd. Bydd y gwaith hwn yn parhau o dan adain "Prosiect 2050".

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol ychwanegol i Weinidogion Cymru, mae hwn yn waith fydd yn cael ei wneud o fewn y gyllideb presennol.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ar fyrder sut y gall ddatblygu Cyngor Partneriaeth y Gymraeg i ddarparu'r arbenigedd sydd ei angen i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi a chynllunio ieithyddol yng Nghymru

Ymateb: Derbyn

Penodwyd yr aelodaeth bresennol ar adeg pan oedd Llywodraeth Cymru yn bwrw ati i weithredu strategaeth Cymraeg 2050, ac fe'i penodwyd yn benodol er mwyn i Weinidogion elwa ar eu harbenigedd a'u cyngor mewn perthynas â meysydd y strategaeth, a'r hyn yr ystyriwyd fel y prif heriau wrth weithredu. Yn hynny o beth, mae'r aelodau'n cynnwys unigolion â chefndir ac arbenigedd mewn ystod amrywiol iawn o feysydd.

Gwaith aelodau'r Cyngor Partneriaeth yw cynghori Gweinidogion Cymru mewn perthynas a strategaeth Gymraeg Gweinidogion Cymru. Mae rôl y Cyngor wedi'i bennu gan Fesur y Gymraeg ac mae gan y Cyngor gylch gorchwyl clir. Rwy'n

adolygu cylch gorchwyl a chyfraniad y Cyngor yn barhaus i sicrhau eu bod yn cyfrannu'n effeithiol.

Goblygiadau Cyllidol: Dim goblygiadau cyllidol ychwanegol i Weinidogion Cymru, mae hwn yn waith fydd yn cael ei wneud o fewn y costau staffio presennol.